

Ysgol Aberconwy



Atal Eithafiaeth Dreisgar a Radicaleiddio

Policy Document No : 58

ISSUE NO: 1

THIS POLICY HAS BEEN APPROVED BY THE FULL GOVERNING BODY

Signed:

Date: 1/06/16

Review due date : 28/06/16

LT Link : AB

YSGOL ABERCONWY

POLISI ATAL EITHAFIAETH DREISGAR A RADICALEIDDIO

Bydd rhieni yn derbyn copi caled o'r polisi hwn ar gais. Bydd y polisi hwn hefyd ar gael i rieni ar wefan yr ysgol. Bydd y Corff Llywodraethu yn mynd ati i werthuso effeithiolrwydd y polisi hwn trwy fonitro dealltwriaeth staff a defnyddio'r gweithdrefnau o fewn y polisi hwn yn unol â'n dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Cyd-destun

Ysgol Aberconwy yn gwerthfawrogi rhyddid i lefaru a mynegi credoau/ideoleg fel elfen sylfaenol sy'n sail i'n cymdeithas. Mae gan fyfyrwyr a staff yr hawl i siarad yn rhydd ac i leisio eu barn. Fodd bynnag, ynghyd â rhyddid, daw cyfrifoldeb i beidio â dylanwadu ar bobl ddiamddiffyn a hyrwyddo syniadau sy'n arwain at drais sy'n niweidio pobl eraill.

Gall y bygythiad presennol o eithafiaeth dreisgar a therfysgaeth yn y DU olygu cam-fanteisio ar bobl ddiamddiffyn gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ddiamddiffyn er mwyn eu cynnwys mewn gweithgarwch i gefnogi eithafiaeth dreisgar neu derfysgaeth. Efallai y bydd normaleiddio'r safbwyntiau eithafol yn golygu bod plant a phobl ifanc yn agored i gael eu dylanwadu a cham-fanteisio yn y dyfodol. Rydym yn bendant y dylai'r cam-fanteisio hwn, a all arwain at radicaleiddio, gael ei ystyried fel mater diogelu.

Ysgol Aberconwy wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yma yn cydnabod bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb waeth beth yw'r rôl maent yn ymgymryd ag o, neu os yw eu swydd yn golygu bod ganddynt gyswllt uniongyrchol neu gyfrifoldeb am blant neu beidio.

Dyletswydd 'Prevent'

O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015) mae dyletswydd statudol ar yr ysgol i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Ar gyfer ysgolion mae hyn yn golygu:

- addysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y myfyrwyr ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd a rhaid hybu cydlyniant cymunedol
- darparu lleoedd diogel lle gall myfyrwyr ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a'r syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgol, a dysgu sut i herio'r syniadau hyn
- bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau presennol i beidio â gwrthio syniadau gwleidyddol a sicrhau bod materion gwleidyddol yn cael eu cyflwyno mewn modd cytbwys
- amddiffyn myfyrwyr rhag eithafiaeth a'r risg o radicaleiddio yn yr un modd â'u hamddiffyn rhag mathau eraill o niwed a cham-drin.

Mae'r polisi hwn yn un elfen o fewn ein trefniadau ysgol cyffredinol i ddiogelu a hyrwyddo lles yr holl blant yn unol â'n dyletswyddau statudol a dylid ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Diogelu yr ysgol.

Ethos ac Ymarfer

Wrth weithredu'r polisi hwn Ysgol Aberconwy yn defnyddio'r diffiniad canlynol gan y Llywodraeth o beth yw eithafiaeth:

'Eithafiaeth' – caiff ei ddiffinio yn strategaeth Atal 2011 fel gwrthwynebiad lleisiol neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydeinig, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a chyd-barch a goddefgarwch o wahanol ffydd a chredoau; a/neu yn galw ar aelodau o'n lluoedd arfog i gael eu lladd, boed yn y wlad hon neu dramor'.

Nid oes lle i safbwyntiau eithafol o unrhyw fath yn ein hysgol, boed o ffynonellau mewnol: disgyblion, staff neu lywodraethwyr, neu o ffynonellau allanol: cymuned yr ysgol, asiantaethau allanol neu unigolion.

Ysgol Aberconwy eisiau i ddisgyblion ystyried yr ysgol yn fan diogel lle gallant archwilio materion dadleuol yn ddiogel a lle mae ein athrawon yn annog ac yn hwyluso hyn.

Fel ysgol rydym yn cydnabod bod eithafiaeth a dod i gysylltiad â deunyddiau a dylanwadau eithafol yn gallu arwain at ganlyniadau gwael i blant ac felly dylid mynd i'r afael â'r mater fel mater diogelu fel y nodwyd yn y polisi hwn. Rydym hefyd yn cydnabod os byddwn yn methu â herio safbwyntiau eithafol, byddwn yn methu wrth fynd i'r afael ag amddiffyn ein disgyblion.

Nod eithafwyr o bob lliw yw meithrin perthynas ddinistriol rhwng gwahanol gymunedau trwy hyrwyddo rhaniad, ofn a diffyg ymddiriedaeth pobl eraill yn seiliedig ar anwybodaeth neu ragfarn, a thrwy hynny gyfyngu ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc. Mae addysg yn arf pwerus yn erbyn hyn drwy arfogi pobl ifanc â'r wybodaeth, sgiliau a gallu meddwl yn feirniadol, i herio a dadlau mewn ffordd ddeallus.

Byddwn yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys a fydd yn cael ei gyflwyno gan weithwyr proffesiynol medrus, i sicrhau bod ein disgyblion yn cael eu cyfoethogi, yn deall ac yn dod yn oddefgar o wahaniaeth ac amrywiaeth, ac i sicrhau eu bod yn ffynnu, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac nad ydynt ar y cyrion. Ar ben hynny yn Ysgol Aberconwy, rydym yn ymwybodol y gall pobl ifanc fod yn agored i ddylanwadau eithafol neu syniadau rhagfarnllyd o oedran cynnar sy'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau a chyfryngau, gan gynnwys y rhyngwyd, ac ar adegau, gall y disgyblion eu hunain adlewyrchu neu arddangos safbwyntiau sy'n gallu bod yn wahaniaethol, yn rhagfarnllyd neu'n eithafol, gan gynnwys defnyddio iaith ddifriol. Bydd unrhyw ragfarn, gwahaniaethu neu farn eithafol, gan gynnwys iaith ddirmygus, gan ddisgyblion neu staff bob amser yn cael ei herio, a lle bo'n briodol, yn cael ei drin yn unol â'n Polisi Ymddygiad a Disgyblu (neu debyg) ar gyfer y disgyblion a Chod Ymddygiad ar gyfer staff.

Lleihau risg

Bydd llywodraethwyr, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Swyddog Diogelu Dynodedig yn asesu lefel y risg o fewn yr ysgol ac yn rhoi camau ar waith i leihau'r risg. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cwricwlwm a pholisïau'r ysgol (er enghraifft polisi Gwrth-fwlio, polisi e-ddiogelwch, polisi siaradwr gwadd).

Rôl y Corff Llywodraethu

Bydd Corff Llywodraethu ein Hysgol yn:

- ymgymryd â hyfforddiant priodol i sicrhau eu bod yn glir ynghylch eu rôl a pharamedrau eu cyfrifoldebau fel Llywodraethwyr, gan gynnwys eu dyletswyddau diogelu statudol.
- cefnogi ethos a gwerthoedd ein hysgol, a bydd yn cefnogi'r ysgol wrth fynd i'r afael ag eithafiaeth a radicaleiddio.
- yn herio uwch dîm rheoli'r ysgol ar gyflwyno polisi hwn ac yn monitro ei effeithiolrwydd.
- adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd (bob 2 flynedd) a gall ei ddiwygio a'i fabwysiadu y tu allan i'r amserlen hon yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau newydd neu mewn ymateb i unrhyw argymhellion sicrwydd ansawdd sy'n ymwneud â chyflwyno polisi hwn a'n trefniadau diogelu cyffredinol.

Bydd manylion ein Corff Llywodraethu yn cael ei gyhoeddi ar wefan ein hysgol i hyrwyddo tryloywder.

Rôl y Pennaeth:

Bydd y Pennaeth yn

- sicrhau bod **rôl Arweinydd Diogelu Dynodedig** yn cynnwys cyfrifoldeb i gyflawni'r strategaeth 'PREVENT' a bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu er mwyn iddynt gyflawni eu rôl
- sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ddysgu am radicaleiddio ac eithafiaeth a datblygu gwydnwch
- sicrhau bod yr ysgol yn cynnal ac yn hyrwyddo Gwerthoedd Prydeinig
- rhoi adborth rheolaidd i'r Corff Llywodraethu ar weithredu'r polisi hwn

Rôl yr **Arweinydd Diogelu Dynodedig**

Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yw'r prif berson ac 'arbenigwr' lleol ar gyfer staff yr ysgol, a phobl eraill a allai fod yn pryderu am ddiogelwch neu les plentyn unigol, a nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer asiantaethau allanol. Mae eu rôl yn cynnwys cyfrifoldebau o elfen 'PREVENT', strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth gan gynnwys darparu hyfforddiant a diweddariadau i staff ysgolion, Llywodraethwyr a gwirfoddolwyr, a chysylltu â thîm 'Prevent' Heddlu Gogledd Cymru.

Rôl yr holl Staff a Gwirfoddolwyr

Bydd yr holl Staff a Gwirfoddolwyr yn:

- ymgymryd â hyfforddiant yn ôl y gofyn
- mynegi unrhyw bryderon ynghylch myfyriwr neu gydweithiwr yn unol â gweithdrefn yr ysgol.

Diogelu

Fel rhan o gyfrifoldebau diogelu ehangach, bydd staff yr ysgol yn chwilio am arwyddion o:

- Ddatgeliadau gan ddisgyblion eu bod wedi gweld gweithredoedd eithafol, barn neu ddeunyddiau eraill y tu allan i'r ysgol, megis yn eu cartrefi neu mewn grwpiau cymunedol.
- Symbolau, ysgrifen neu waith celf graffiti yn hyrwyddo negeseuon neu ddelweddau eithafol
- Disgyblion yn gweld deunydd eithafol ar-lein, gan gynnwys safleoedd rhwydweithio cymdeithasol

- Adroddiadau gan rieni am newidiadau mewn ymddygiad, cyfeillgarwch neu weithrediadau a cheisiadau am gymorth
- Ysgolion partner, gwasanaethau awdurdodau lleol, ac adroddiadau heddlu am faterion sy'n effeithio ar ddisgyblion mewn ysgolion neu leoliadau eraill
- Disgyblion yn mynegi barn sy'n deillio o ideolegau a naratifau eithafol
- Defnyddio termau eithafol neu 'casineb' i eithrio pobl eraill neu i ysgogi trais
- Anoddefiad o wahaniaeth, boed yn seciwlar neu'n grefyddol, neu, yn unol â'n polisi cydraddoldebau, safbwyntiau sy'n seiliedig ar, ond nid yn gyfyngedig i, rhyw, anabledd, homoffobia, trawsffobia, hil, lliw neu ddiwylliant
- Ymdrechion i orfodi safbwyntiau eithafol neu arferion ar bobl eraill
- Safbwyntiau sy'n wrth-orllewinol neu'n wrth-Brydeinig

Bydd ein ysgol yn dilyn yn agos unrhyw weithdrefn a gytunwyd arni'n lleol fel y nodwyd gan yr Awdurdod Lleol a / neu'r prosesau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd Amddiffyn Plant Gogledd Cymru er mwyn diogelu unigolion sy'n ddiameddiffyn rhag eithafiaeth a radicaleiddio.

Amddiffyn Plant

Darllenwch ein **Polisi Diogelu** i gael y fframwaith gweithdrefnol llawn ar ein dyletswyddau Amddiffyn Plant.

Bydd staff yn effro i'r ffaith tra bod Eithafiaeth a Radicaleiddio yn gyffredinol yn fater diogelu, efallai y bydd achosion pan fo plant neu blentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed neu esgeulustod. Er enghraifft; gallai hyn ddigwydd am fod plentyn yn arddangos ymddygiad peryglus o ran y gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt neu'r grwpiau y maent yn gysylltiedig â nhw, neu fod staff yn ymwybodol o wybodaeth am deulu'r plentyn a allai hefyd olygu bod y plentyn mewn perygl o niwed. (Mae'r enghreifftiau hyn ar gyfer eglurhad, ac nid ydynt yn ddiffiniol nac yn gynhwysfawr).

Felly, mae'n rhaid i'r holl oedolion sy'n gweithio yn Ysgol Aberconwy, gan gynnwys staff sy'n ymweld, gwirfoddolwyr, contractwyr, a myfyrwyr ar brofiad gwaith, roi gwybod i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig neu Bennaeth am achosion lle maent yn credu y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed neu esgeulustod.

Atgyfeirio pryderon

Os bydd pryderon am eithafiaeth neu radicaleiddio, fe anogir rhieni, disgyblion a staff i ddefnyddio ein systemau mewnol i fynegi unrhyw bryder yn gyfrinachol wrth uwch reolwyr.

Os bydd gan unrhyw un unrhyw bryderon, y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer 'Prevent' yw'r **Arweinydd Diogelu Dynodedig**. Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn dilyn gweithdrefn ddiogelu'r ysgol i atgyfeirio unrhyw bryderon. Os bydd angen, gellir cael rhagor o wybodaeth gan dîm 'Prevent' Heddlu Gogledd Cymru.

Os bydd atgyfeirio at yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn achosi anhawster i'r sawl sy'n atgyfeirio am unrhyw reswm, gallant gysylltu â **XXXXXX (i'w benderfynu gan yr ysgol)**.

Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen bolisi hon

Ymagweddau addysgu

Byddwn yn:

- ymdrech i ddileu mythau a'r rhagdybiaethau a all arwain rhai pobl ifanc i ymddieithrio a bod heb rym, yn enwedig lle gall yr ymagweddau cul y mae'r plant yn eu profi mewn mannau eraill, olygu ei bod hyd yn oed yn anoddach iddynt herio neu gwestiynu'r dylanwadau radical hyn. Yn ein hysgol ni, bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy addysgu da, yn bennaf drwy gyfrwng gwersi ABCh/Dinasyddiaeth
- sicrhau bod ein hymagweddau addysgu yn helpu ein disgyblion i fod yn gadarn i allu gwrthsefyll eithafiaeth a rhoi ymdeimlad cadarnhaol o hunaniaeth i ddisgyblion drwy ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol. Ein nod yw bod pob un o'n staff yn cael eu paratoi i adnabod eithafiaeth ac yn ddigon medrus a hyderus i'w herio
- gweithio gyda phartneriaid lleol, teuluoedd a chymunedau yn ein hymdrechion i sicrhau bod ein hysgol yn deall ac yn cofleidio ein cyd-destun a gwerthoedd lleol wrth herio safbwyntiau eithafol a chynorthwyo i ehangu profiadau a gorwelion ein disgyblion.
- helpu i gefnogi disgyblion a allai fod yn ddiamddiffyn i ddylanwadau o'r fath fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach, ac os ydym yn credu bod disgybl yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan ddeunyddiau neu ddylanwadau eithafol, byddwn yn ceisio cyngor gan Swyddogion 'Prevent' Heddlu Gogledd Cymru a /neu Swyddogion Awdurdod Diogelu Lleol.
- hyrwyddo gwerthoedd democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn, cyd-barch a goddefgarwch tuag at y rhai sydd â gwahanol grefyddau a chredoau.
- addysgu ac annog disgyblion i barchu eu gilydd ac i barchu a goddef gwahaniaeth, yn enwedig y rhai o ffydd gwahanol neu sydd heb unrhyw ffydd.
- cyflawni ein cyfrifoldeb mwyaf sylfaenol, sef i gadw ein disgyblion yn ddiogel a'u paratoi ar gyfer bywyd ym Mhrydain amlddiwylliannol modern a'r gymuned ryngwladol ehangach.

Defnyddio Asiantaethau a Siaradwyr Allanol

Yn Ysgol Aberconwy rydym yn annog y defnydd o asiantaethau neu siaradwyr allanol i gyfoethogi profiadau ein disgyblion, fodd bynnag, byddwn yn gwirio yn gadarnhaol, yr asiantaethau, unigolion neu siaradwyr allanol y byddwn yn ymgysylltu â nhw i ddarparu cyfleoedd neu brofiadau dysgu o'r fath i'n disgyblion. Diben gwiriadau fel y rhain yw sicrhau nad ydym yn ddiarwybod yn defnyddio asiantaethau sydd yn anghyson, neu sydd â gwrthwynebiad llwyr i werthoedd ac ethos yr ysgol.

Bydd ein hysgol yn asesu addasrwydd ac effeithiolrwydd cyfraniad asiantaethau neu unigolion allanol i sicrhau bod:

- Unrhyw negeseuon sy'n cael cyfleu i'r disgyblion yn gyson ag ethos yr ysgol ac nid ydynt yn ymleiddio unrhyw gymunedau, grwpiau neu unigolion
- Nid oes unrhyw negeseuon yn ceisio canmol gweithgarwch troseddol neu eithafiaeth dreisgar neu'n ceisio radicalesiddio disgyblion trwy safbwyntiau eithafol neu ffydd cul, crefydd neu ddiwylliant neu ideolegau eraill
- Caiff gweithgareddau eu hymgorffori'n briodol yn y cwricwlwm a'u mapio'n glir i'r cynlluniau gwaith

- Gweithgareddau yn cael eu rheoli'n dda, yn cael eu goruchwyllo'n llawn ac yn amodol ar weithdrefnau diogelu cadarn
- Gweithgareddau yn cyfateb ag anghenion disgyblion
- Gweithgareddau yn cael eu harfarnu'n ofalus gan ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol

Ethos ein hysgol yw annog disgyblion i ddeall safbwyntiau ac ideolegau amrywiol, sy'n briodol i'w hoedran, eu dealltwriaeth a'u gallu, a gallu ymgysylltu â hwy mewn trafodaeth wybodus, ac efallai y byddwn yn defnyddio asiantaethau neu siaradwyr allanol i hwyluso a chefnogi hyn. Felly trwy gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, wedi'i hategu gan y defnydd o ffynonellau allanol lle bo'n briodol, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein disgyblion yn adnabod risg ac yn meithrin gwytnwch i reoli unrhyw risg o'r fath eu hunain (lle y bo'n briodol i'w hoed a'u gallu), ond hefyd i helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau meddwl beirniadol sydd eu hangen i gymryd rhan mewn dadl wybodus.

Hyfforddiant

Bydd yr holl staff, gan gynnwys staff dros dro a gwirfoddolwyr yn cael sesiwn gyflwyno o ran ein polisi a gweithdrefnau Diogelu. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau am ein dyletswydd i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Bydd hyfforddiant mewn swydd i'r ysgol gyfan o ran diogelu ac amddiffyn plant yn cael ei drefnu ar gyfer staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr o leiaf bob 2 o flynyddoedd ac yn cydymffurfio â'r trefniadau cyfredol a gymeradwywyd gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, ac yn rhannol, bydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am eithafiaeth a radicleiddio a'i oblygiadau diogelu.

Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn mynychu cyrsiau hyfforddiant priodol a pherthnasol mewn perthynas â diogelu plant. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar eithafiaeth a radicleiddio a'i oblygiadau diogelu.

Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn sicrhau bod yr holl oedolion sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn yr ysgol yn derbyn lefelau priodol o hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth mewn perthynas â diogelu plant rhag eithafiaeth a radicleiddio yn rheolaidd.

Recriwtio ac ymddygiad staff

Bydd y trefniadau ar gyfer recriwtio'r holl staff, y rhai parhaol a gwirfoddol i'n ysgol, yn dilyn canllawiau arfer gorau recriwtio mwy diogel mewn lleoliadau addysg, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, sicrhau bod gwiriadau GDG yn cael eu cynnal bob amser ar y lefel briodol, bod geirdaon yn cael eu derbyn a'u gwirio bob amser a'n bod yn llenwi a chynnal un cofnod canolog o wiriadau fetio o'r fath.

Byddwn yn dilyn egwyddorion arfer gorau recriwtio mwy diogel ac arferion cyflogaeth cadarn yn gyffredinol, ac wrth wneud hynny byddwn yn gwadu cyfleoedd ar gyfer recriwtio neu ddyrchafiad amhriodol.

Byddwn yn effro i'r posibilrwydd y gallai pobl geisio gael swyddi yn ein hysgol er mwyn dylanwadu yn ormodol ar gymeriad ac ethos ein hysgolion. Rydym yn ymwybodol bod pobl o'r fath yn ceisio cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer ein disgyblion a thrwy hynny, eu gwneud yn

ddiamddiffyn i safbwyntiau eithafol a radicaleiddio. Felly, drwy gadw at dechnegau arfer gorau recriwtio mwy diogel, a thrwy sicrhau bod yna ddiwylliant parhaus o wylidwriaeth yn ein hysgol a thîm y staff, byddwn yn lleihau'r cyfleoedd i safbwyntiau eithafol ennill y dydd.

Rhannu Pryderon

Dylai staff gyfeirio at Bolisi Rhannu Pryderon yr Ysgol sy'n golygu bod ganddynt hawl i gael eu gwarchod yn y gwaith am fynegi gwir bryderon y tu allan i amgylchedd yr ysgol.

Polisiau a Hyfforddiant TG

Systemau hidlo priodol ar waith i amddiffyn plant rhag deunydd terfysgol ac eithafol wrth fynd ar y rhyngwyd yn yr ysgol. Mae'r Polisi Defnydd TGCh Derbyniol yn gwahardd mynediad at ddeunydd terfysgol ac eithafol.

Mae myfyrwyr yn cael cyngor a hyfforddiant ar sut i aros yn ddiogel ar-lein, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae staff addysgu yn ymwybodol o beryglon gweithgarwch ar-lein gan grwpiau terfysgol, a bydd unrhyw weithgaredd ar-lein amheus yn cael eu hadrodd i Mrs Ann Bradshaw.

Cysylltiadau defnyddiol:

Tîm 'Prevent' Heddlu Gogledd Cymru:

Rhingyll/Sergeant 1739 Neal Parkes (PoISa)

Cydlynnydd Prevent/ Prevent Coordinator
Gwasanaethau Lleol Heddlu/Local Policing Services
Pencadlys yr Heddlu/Police Headquarters
Bae Colwyn/Colwyn Bay
Ffôn/telephone : 01745 588814 est./ex 88814
BB 07768035316
E-bost/ email: neal.parkes@nthwales.pnn.police.uk

Cwnstabl/ Constable 149 Rob Darnell

Swyddog Ymgysylltiad Prevent/ Prevent Engagement Officer
Pencadlys yr Heddlu/ Police Headquarters
Bae Colwyn/ Colwyn Bay
LL29 8AW
Ffôn/Telephone : 01492 805387/ 07896172825
E-bost/email: rob.darnell@nthwales.pnn.police.uk

Mrs Ann Bradshaw 01492 593243

Miss Jess Spencer 01492 593243

Dogfennau defnyddiol:

Y Dyletswydd 'Prevent': cyngor i ysgolion a darparwyr gofal plant

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/439598/prevent-duty-departmental-advice-v6.pdf

Arweiniad atodol: Arolygu diogelu mewn ysgolion ac UC Dau (Estyn, 2015)

<http://www.estyn.gov.wales/document/supplementary-guidance-inspecting-safeguarding-schools-and-prus>

Parch a Gwrthsafiad: Datblygu cydlyniant cymunedol - dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau (2011)
www.gov.wales/docs/dcells/publications/110209respecten.pdf

Safonau hidlo ar gyfer y we a argymhellir ar gyfer ysgolion yng Nghymru (2015)
www.gov.wales/docs/dcells/publications/150629-recommended-web-filtering-standards-en.pdf

Atodiad

Diffiniadau

Eithafiaeth: Diffiniad y Llywodraeth a dderbynnir o eithafiaeth yw:

'Eithafiaeth' – caiff ei ddiffinio yn strategaeth Atal 2011 fel gwrthwynebiad lleisiol neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydeinig, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a chyd-barch a goddefgarwch o wahanol ffydd a chredoau; a/neu yn galw ar aelodau o'n lluoedd arfog i gael eu lladd, boed yn y wlad hon neu dramor'.

Eithafiaeth Dreisgar: Pan fo trais yn cael ei gyfiawnhau neu ogoneddu wrth hyrwyddo credoau penodol

Radicaleiddio: Y broses sy'n arwain pobl i droi cwynion gwirioneddol neu ganfyddedig mewn i syniadau sy'n fwyfwy eithafol a allai gynnwys defnyddio trais i hyrwyddo'r credoau hynny

PREVENT: Un o'r pedair elfen sy'n ffurfio strategaeth gwrthderfysgaeth y Swyddfa Gartref. Ei nod yw atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi eithafiaeth dreisgar drwy:

- Herio ideoleg eithafol dreisgar
- Amharu ar y rhai sy'n hyrwyddo eithafiaeth dreisgar
- Cefnogi unigolion diamddiffyn
- Cynyddu gwydnwch cymunedau i eithafiaeth dreisgar
- Mynd i'r afael â'r cwynion bod ideolegau yn cam-fanteisio arnynt

Gwydnwch: Yn fras, mae hyn yn golygu'r gallu i ddod yn ôl o adfyd. Fe'i defnyddir gan addysgwyr a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol i ddisgrifio'r broses y gall pobl oresgyn neu wrthsefyll dylanwadau negyddol sy'n atal, er enghraifft, lles emosiynol neu gyflawniad.

Meddwl yn Feirniadol: Y gallu i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a dadleuon. Mae'n canolbwyntio ar gwestiynu rhagdybiaethau a'r gwerthoedd sy'n sail i ddatganiadau a chasgliadau gyda golwg ar asesu eu dilysrwydd.